# cyfleoedd i ysgolion cynradd

2014-2015

st fagans national history museum
sain ffagan amgueddfa werin cymru

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government






## Amdanom ni

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yw un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop. Mae dros ddeugain o adeiladau hanesyddol o bob cwr o Gymru wedi’u hailgodi yma, er mwyn dangos arferion byw, gŵyl a gwaith y gorffennol.

### Creu Hanes: datblygu i’r dyfodol

Rydyn ni wedi derbyn nawdd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru i weddnewid profiad ymwelwyr yn Sain Ffagan. Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn datblygu mynediad newydd, cyfleusterau addysg, orielau newydd ac adeiladau hanesyddol gan gynnwys neuadd ganoloesol tywysogion Gwynedd.

## Archebu a chynllunio

### Rhaid archebu ymweliadau grŵp ymlaen llaw

Nid oes modd ymweld â rhai adeiladau heb archebu ymlaen llaw, felly rhowch wybod os hoffech chi ymweld ag adeilad penodol. Cofiwch archebu gweithgareddau arbennig mewn da bryd hefyd, rhag i chi gael eich siomi, yn enwedig yn ystod y gwaith ailddatblygu.

### Gwybodaeth iechyd a diogelwch

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau nad yw’r gwaith yn amharu ar eich ymweliad ond gofalwch fod eich grŵp yn talu sylw i’r arwyddion diogelwch ychwanegol o gwmpas y safle. Mae gwybodaeth i’ch helpu i gwblhau asesiad risg ar **www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/sainffagan.**

### Trefniadau bwyta

Gallwn neilltuo 20 munud i chi fwyta cinio mewn ardal dan do – cewch wybod faint o’r gloch pan fyddwch yn cyrraedd yr Amgueddfa. Mae safleoedd picnic awyr agored ar gael hefyd. Gallwch archebu pecynnau cinio drwy ffonio (029) 2057 3414.

### Siop

Gall athrawon archebu bagiau o gofroddion addas i blant ymlaen llaw a’u casglu a thalu amdanyn nhw ar ddiwrnod yr ymweliad, ffoniwch (029) 2057 3412.

## Pris sesiynau wedi'u hwyluso

Codir tâl am sesiynau dan arweiniad staff yr Amgueddfa sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm. Mae pedwar pris gwahanol (heb gynnwys TAW):

| | |
|---|---|
| sesiwn hyd at awr<br>ar gyfer hyd at 15 disgybl – £27 | sesiwn hyd at awr<br>ar gyfer hyd at 35 disgybl – £42 |
| sesiwn hyd at hanner diwrnod<br>ar gyfer hyd at 15 disgybl – £47 | sesiwn hyd at hanner diwrnod<br>ar gyfer hyd at 35 disgybl – £77 |

Ar gyfer ysgolion yng Nghymru: os yw'r Llywodraeth, yn unol â'r ffigurau diweddaraf, yn ystyried fod mwy nag 20% o ddisgyblion eich ysgol yn cael prydau ysgol am ddim, ni chodir tâl am y sesiynau. Mae grwpiau Anghenion Addysgol Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn gymwys i gael sesiynau am ddim hefyd.

Anfonir anfoneb i'ch ysgol ar ôl diwrnod yr ymweliad. Os byddwch yn canslo ar ôl 10am y diwrnod cyn y sesiwn neu os byddwch yn hwyr ac yn colli'ch sesiwn, rhaid talu'r anfoneb. Nid yw'r prisiau'n cynnwys TAW ond mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gallu ei hawlio'n ôl.

## Manylion cyswllt

Yr Adran Addysg
Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd
CF5 6XB


(029) 2057 3424

addysg.sainffagan@amgueddfacymru.ac.uk

@StFagans_Learn

St Fagans: National History Museum

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg




Am fersiwn print bras o'r daflen hon, ffoniwch (029) 2057 3278

Mae mynediad AM DDIM diolch i nawdd Llywodraeth Cymru

# Eich Profiad yn yr Amgueddfa

Gan ddibynnu ar faint o amser sy'n sbâr gennych, gallech gynnwys cynifer o'r gweithgareddau canlynol ag y dymunwch. Beth am eu cyfuno â'n sesiynau wedi'u hwyluso er mwyn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y cwricwlwm.

- dewch i weld sut le oedd Cymru'r oes a fu trwy ymweld ag adeiladau wedi'u hatgynhyrchu a gerddi hanesyddol.
- ymweld â chrefftwyr traddodiadol fydd yn arddangos eu sgiliau.
- dewch am dro o gwmpas Castell Sain Ffagan a'i gerddi godidog.
- cewch ddarganfod bywyd gwyllt y safle awyr agored mawr hwn a chael cipolwg ar yr adar lleol yn ein Cuddfan Adar.

Cofiwch ddweud wrthym wrth archebu os hoffech gynnwys unrhyw un o'r uchod yn eich ymweliad. Ar gael gydol y flwyddyn ac yn addas ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnodau allweddol.




2 CWT



# Sesiynau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a CA2

## Siop Gwalia
Dewch i gyfarfod â'r siopwr yn Siop Gwalia i weld sut roedd pobl yn siopa dros 80 mlynedd yn ôl.

## Teganau
Dewch i gymharu a chyferbynnu sut mae plant wedi chwarae ar hyd y canrifoedd, a phrofi'ch sgiliau gyda theganau traddodiadol.

## Diwrnod Folchi gyda Beti Bwt
Dewch i weld sut roedd pobl yn golchi dillad cyn dyddiau'r peiriant golchi.

## Cwrdd â'r Coed
Defnyddiwch eich synhwyrau i archwilio'r coetir a chreu gwaith celf drwy ddefnyddio deunyddiau naturiol y coetir.

Mae pob sesiwn uchod yn para 1 awr a dan arweiniad staff yr Amgueddfa. Cost pob sesiwn yw £27 am hyd at 15 disgybl, £42 am hyd at 35 disgybl. Dim mwy na 30 disgybl fesul sesiwn.

## Rhyd-y-car
Ewch am dro i'r rhesdai o ardal Merthyr Tudful a phrofi'r gwahaniaethau rhwng bywyd ym 1805 a 1985.
Sesiwn 30 munud. Am ddim gan fod y sesiwn dan arweiniad athro.

AM DDIM: DAN ARWEINIAD ATHRO

## Arddangos Crefftau
Archebwch eich lle i weld y gof, y melinydd, y gwehydd neu'r clocsiwr yn dangos eu crefftau traddodiadol, yn unol ag argaeledd.
Gweithgaredd hyd at hanner awr. Am ddim am eu bod ar gael i bawb.

AM DDIM


FAIRY
FAIRY
FAIRY
FAIRY

# Sesiynau ar gyfer CA2

## Hanes

### Celtiaid yr Oes Haearn

#### Helpwch ni i Adeiladu Bryn Eryr, ein Fferm Newydd

AM DDIM: SESIWN BEILOT

Byddwch yn rhan o'ch llwyth Celtaidd, helpu i godi waliau ein fferm newydd o'r Oes Haearn, dysgu am fywyd yn yr Oes Haearn a rhoi cynnig ar grefft neu sgil goroesi'r oes.
Dewiswch o blith: Adrodd Straeon a Gwneud Breichledi NEU Hyfforddi Rhyfelwyr.

Sesiwn awr a hanner dan arweiniad staff yr Amgueddfa. Am ddim gan fod y sesiwn yn cael ei threialu yn ystod y gwaith ailddatblygu.

### Y Tuduriaid

#### Gwisgoedd y Tuduriaid

Sesiwn cymharu a chyferbynnu dillad a wisgwyd gan fonheddwyr â ffermwyr cefnog gyda chyfle i bedwar disgybl fodelu'r gwisgoedd. Dewch i ganfod cliwiau cudd mewn portread o blant yr oes yng Nghastell Sain Ffagan (1580).

Sesiwn awr dan arweiniad staff yr Amgueddfa. £22 am hyd at 15 disgybl, £37 am hyd at 35 disgybl.

#### Ar Drywydd y Tuduriaid

AM DDIM: DAN ARWEINIAD ATHRO

Cymharu dau dŷ o'r oes, trin a thrafod atgynyrchiadau ac ymweld ag Eglwys Sant Teilo (1530).

Sesiwn awr a thri chwarter. Am ddim gan fod y sesiwn dan arweiniad athro ond rhaid i athrawon fynychu diwrnod hyfforddiant yn gyntaf.

### Bywyd Bob Dydd yn y 19eg a'r 20fed Ganrif

#### Ysgol Maestir

AM DDIM: DAN ARWEINIAD ATHRO

Cyfle i athrawon a disgyblion ail-fyw gwers ysgol yn yr 1890au.
Sesiwn awr a hanner. Am ddim gan fod y sesiwn dan arweiniad athro ond rhaid i athrawon fynychu diwrnod hyfforddiant yn gyntaf.

## Gwyddoniaeth

### Organebau Cyd-ddibynnol

#### Llwybr Bywyd Gwyllt Sain Ffagan

AM DDIM: DAN ARWEINIAD ATHRO

Dysgu yn yr awyr agored i ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu a rhifedd. Cymerwch ran mewn gweithgareddau syml a defnyddio taflenni 'Mi wela i' i adnabod bywyd gwyllt yn Sain Ffagan.



# Cynorthwyo athrawon

## Adnoddau

Ewch i'n gwefan am bob math o adnoddau sy'n berthnasol i'r cwricwlwm gan gynnwys taflenni gweithgareddau, llwybrau a phecynnau i athrawon i'w defnyddio yn yr amgueddfa neu'r ysgol:
**www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/sainffagan/adnoddau.**

## Ymweliadau rhagflas

Ffoniwch ni i drefnu ymweliad rhagflas i drafod a chynllunio sut i wneud yn fawr o'ch ymweliad â Sain Ffagan.

## Diwrnodau hyfforddiant i fanteisio i'r eithaf ar eich ymweliad

**ar gyfer athrawon CA2**

### Gwyddoniaeth a Chynaliadwyedd

Dewch i loywi'ch sgiliau adnabod byd natur a gweld sut gall yr amrywiaeth gwych o fywyd gwyllt yn Sain Ffagan helpu eich disgyblion i ddysgu. Dysgwch sut gallwch chi ddefnyddio'r tai traddodiadol yn Sain Ffagan i drafod a hyrwyddo datblygu cynaliadwy at y dyfodol. Rhowch gynnig ar rai o'r llwybrau a'r gweithdai sydd ar gael i ysgolion.

### Taflu Goleuni ar y Tuduriaid

Cyfle i wella ac ategu'ch ymweliadau yn y dyfodol gyda chwrs sydd â'r nod o fagu hyder a hybu arbenigedd yn oes y Tuduriaid a'r Stiwartiaid. Diwrnod hamddenol o weithgareddau llawn gwybodaeth, gan gynnwys: trin a thrafod gwrthrychau, deall gwisgoedd y Tuduriaid a dysgu sut mae arwain y daith *Ar Drywydd y Tuduriaid*.

Rhaid i athrawon sydd am archebu'r sesiwn *Ar Drywydd y Tuduriaid* dan arweiniad athro fynychu'r cwrs hwn.

### Bywyd Bob Dydd yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg – Ysgol Maestir

Cyfle i brofi bywyd plentyn ysgol yn y 1890au a dysgu sut mae cyflwyno gwers fel athro o Oes Fictoria. Rhaid i athrawon sydd am archebu'r sesiwn *Ysgol Maestir* dan arweiniad athro fynychu'r cwrs hwn.

### Celtiaid yr Oes Haearn

Dewch i ddysgu mwy am Geltiaid yr Oes Haearn yng Nghymru a chael cyfle i helpu i ddatblygu ac adeiladu Bryn Eryr, ein fferm newydd o'r Oes Haearn.

**Ewch i'n gwefan i weld dyddiadau'r cyrsiau nesaf**
**www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg.**